

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 18 Ionawr 2016
Tabled on 18 January 2016

Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) Tax Collection and Management (Wales) Bill

Jane Hutt 75

Section 3, page 2, line 14, leave out '3' and insert '4'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 14, hepgorer '3' a mewnosoder '4'.

Jane Hutt 76

Section 3, page 2, line 17, leave out 'nominated by WRA' and insert—
'appointed by the chief executive, and

- (e) 1 other member of staff of WRA appointed under section [*to be inserted by amendment 83*]'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 17, hepgorer 'a enwebir gan ACC' a mewnosoder—
'a benodir gan y prif weithredwr, ac

- (e) 1 aelod arall o staff ACC a benodir o dan adran [*i'w mewnosod gan welliant 83*]'.

Jane Hutt 77

Section 3, page 2, line 23, after 'are', insert 'collectively'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 23, ar ôl 'cyfeirir', mewnosoder 'ar y cyd'.

Jane Hutt 78

Section 3, page 2, line 25, leave out 'nominated under subsection (1)(d) are' and insert 'appointed under subsection (1)(d) or section [*to be inserted by amendment 83*] are collectively'.



Adran 3, tudalen 2, llinell 25, hepgorer 'at y prif weithredwr ac at aelodau o ACC a enwebir o dan is-adran (1)(d)' a mewnosoder 'ar y cyd at y prif weithredwr ac at aelodau o ACC a benodir o dan is-adran (1)(d) neu o dan adran [i'w mewnosod gan welliant 83]'

Jane Hutt

79

Section 3, page 2, line 26, after 'members"', insert –
';

- (c) the member of WRA appointed under section [to be inserted by amendment 83] is referred to as an "elected executive member".

Adran 3, tudalen 2, llinell 26, ar ôl 'gweithredol"', mewnosoder –
';

- (c) cyfeirir at yr aelod o ACC a benodir o dan adran [i'w mewnosod gan welliant 83] fel "aelod gweithredol etholedig".

Jane Hutt

80

Section 5, page 3, after line 13, insert –

- '() The period of office specified in the terms of a non-executive member's appointment must not be more than 5 years.'

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- '() Ni chaiff y cyfnod yn y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod anweithredol fod yn hwy na 5 mlynedd.'

Jane Hutt

81

Section 5, page 3, line 19, after 're-appointed', insert 'as a non-executive member once only'.

Adran 5, tudalen 3, llinell 20, ar ôl 'ACC', mewnosoder 'yn aelod anweithredol unwaith yn unig'.

Jane Hutt

82

Section 5, page 3, after line 19, insert –

- '() A person who is or has been deputy chairperson of WRA may be re-appointed as deputy chairperson.'

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

- '() Caniateir ailbenodi person sy'n is-gadeirydd ACC neu sydd wedi bod yn is-gadeirydd ACC yn is-gadeirydd.'



Jane Hutt

83

Page 3, after line 25, insert a new section –

[] Appointment of elected executive member

- (1) WRA must conduct a ballot of its staff for the purpose of appointing a member of staff as an elected executive member of WRA.
- (2) The non-executive members of WRA must –
 - (a) appoint the winner of the ballot as an elected executive member of WRA, and
 - (b) determine the terms of that person's appointment.
- (3) An elected executive member of WRA holds office as a member for such period and on such terms as are specified in the terms of the member's appointment (but subject to subsection (4) and section 6).
- (4) An elected executive member of WRA may resign from office by giving notice to the non-executive members of WRA.'

Tudalen 3, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd –

[] Penodi aelod gweithredol etholedig

- (1) Rhaid i ACC gynnal pleidlais gudd ymhlith ei staff at ddiben penodi aelod o staff yn aelod gweithredol etholedig o ACC.
- (2) Rhaid i aelodau anweithredol ACC –
 - (a) penodi enillydd y bleidlais gudd yn aelod gweithredol etholedig o ACC, a
 - (b) pennu telerau penodiad y person hwnnw.
- (3) Mae aelod gweithredol etholedig o ACC yn gwasanaethu fel aelod am ba bynnag gyfnod ac ar ba bynnag delerau a bennir yn nhelerau penodiad yr aelod (ond yn ddarostyngedig i is-adran (4) ac adran 6).
- (4) Caiff aelod gweithredol etholedig o ACC ymddiswyddo drwy roi hysbysiad i aelodau anweithredol ACC.'

Jane Hutt

84

Section 6, page 3, after line 34, insert –

- () The non-executive members of WRA may remove a person from office as an elected executive member of WRA by notice if –
- (a) the person has been absent from meetings of WRA for a period longer than 6 months without the permission of WRA, or
 - (b) the non-executive members of WRA consider that the person is unfit to be a member or is unable or unwilling to carry out the person's functions as a member.'



Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- (1) Caiff aelodau anweithredol ACC ddiswyddo person fel aelod gweithredol etholedig o ACC drwy roi hysbysiad –
- (a) os yw'r person wedi bod yn absennol o gyfarfodydd ACC am gyfnod hwy na 6 mis heb ganiatâd ACC, neu
 - (b) os yw aelodau anweithredol ACC o'r farn nad yw'r person yn addas i fod yn aelod neu nad yw'r person yn gallu neu'n fodlon cyflawni ei swyddogaethau fel aelod.'

Jane Hutt

85

Section 9, page 4, line 35, leave out 'may' and insert 'must make rules to'.

Adran 9, tudalen 4, llinell 33, hepgorer 'Caiff ACC' a mewnosoder 'Rhaid i ACC lunio rheolau i'.

Jane Hutt

86

Section 9, page 4, after line 36, insert –

- (2) The rules must provide that a meeting of WRA is not quorate unless a majority of the members present are non-executive members of WRA.'

Adran 9, tudalen 4, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

- (2) Rhaid i'r rheolau ddarparu nad oes cworwm mewn cyfarfod o ACC oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol o ACC.'

Jane Hutt

87

Section 12, page 5, after line 29, insert –

- (2) But WRA may not authorise a committee or sub-committee to carry out any of its functions (to any extent) unless at least one of the members of the committee or sub-committee is a non-executive member of WRA.
- (3) The authorisation of the carrying out of a function under this section does not affect –
- (a) WRA's ability to exercise the function, or
 - (b) WRA's responsibility for the exercise of the function.'

Adran 12, tudalen 5, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- (2) Ond ni chaiff ACC awdurdodi pwyllgor neu is-bwyllgor i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau (i unrhyw raddau) oni bai bod o leiaf un o aelodau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor yn aelod anweithredol o ACC.
- (3) Nid yw'r awdurdodiad i gyflawni swyddogaeth o dan yr adran hon yn effeithio ar –
- (a) gallu ACC i arfer y swyddogaeth, na
 - (b) cyfrifoldeb ACC dros arfer y swyddogaeth.'



Jane Hutt 88

Section 30, page 13, line 7, after 'lawfully', insert 'and in accordance with the authority which governs it'.

Adran 30, tudalen 13, llinell 7, ar ôl 'gyfreithlon', mewnosoder 'ac yn unol â'r awdurdod sy'n ei lywodraethu'.

Jane Hutt 89

Section 191, page 87, Table 1, after line 5, column 1, insert –
'Elected executive member ("aelod gweithredol etholedig")'.

Adran 191, tudalen 86, Tabl 1, ar ôl llinell 26, colofn 1, mewnosoder –
'Aelod gweithredol etholedig ("elected executive member")'.

Jane Hutt 90

Section 191, page 87, Table 1, after line 5, column 2, insert –
'section 3(4)(c)'.

Adran 191, tudalen 86, Tabl 1, ar ôl llinell 26, colofn 2, mewnosoder –
'adran 3(4)(c)'.

Nick Ramsay 3A

As an amendment to amendment 3, line 1, leave out 'is expected to' and insert 'must'.

Fel gwelliant i welliant 3, llinell 1, hepgorer 'disgwyllir' a mewnosoder 'bydd rhaid'.

Nick Ramsay 6A

As an amendment to amendment 6, after line 5, insert –

- (iii) the first review is to be undertaken within 12 months.

Fel gwelliant i welliant 6, ar ôl llinell 6, mewnosoder –

- (iii) mae'r adolygiad cyntaf i'w gynnal o fewn 12 mis.

